Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Sir Penfro**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**SA61 1TP**

**Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2012**

## Cyd-destun

Penrhyn yn ne orllewin Cymru yw Sir Benfro ac mae'n rhannu ffiniau tir â Cheredigion a Sir Gaerfyrddin. 117,086 yw cyfanswm poblogaeth y Sir.

Mae 22.9% o bobl dros dair oed y Sir yn dweud eu bod yn medru'r Gymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 26.3%.

Y gyfradd gyflogaeth yn Sir Benfro oedd 67.3% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.7%. Roedd 16.8% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. O'r boblogaeth waith yn Sir Benfro, nid oes gan 13.8% unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12.1%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 17.5%, sy'n is nag 19.3% yn genedlaethol. Y lefel hon o gymhwyster yw'r wythfed isaf yng Nghymru o gymharu ag awdurdodau lleol eraill; y cyntaf yw'r ffigur isaf o ran prydau ysgol am ddim, a safle 22 yw'r uchaf (CYBLD 2012). Dim ond pedair o'r 71 o ardaloedd yn Sir Benfro sydd ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC 2011) erbyn hyn.

Ar 31 Mawrth 2011, roedd 155 o blant yn cael gofal gan yr awdurdod yn Sir Benfro. Roedd 90 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.9% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%.

### Cyd-destun ariannol

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru i bob pen o'r boblogaeth ar gyfer Cyngor Sir Penfro yn 2012-2013 yw £1,725 y pen, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £1,681. Gosodwyd cyllideb refeniw net o £199.1 miliwn (heb gynnwys grantiau penodol), sydd 1% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Gosododd y Cyngor ei gyllideb gyffredinol ar 94.3% o'r AGS, sef yr isaf yng Nghymru, a gosododd y gyllideb addysg ar lefel o 96.6% o'i asesiad yn seiliedig ar ddangosydd (ASDd), sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 98.7%. Dylid nodi nad targed gwariant yw'r ASDd, ond mecanwaith ar gyfer pennu dyraniad cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau unigol. Y gyllideb addysg net fesul disgybl oedd £4,934 o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,813. Y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion cynradd yw £4,500 fesul disgybl, a £4,687 fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd. Mae'r ddwy gyllideb uwchlaw cyfartaleddau priodol Cymru gyfan, sef £4,114 a £4,589.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Anfoddhaol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw perfformiad mewn ysgolion cynradd yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg mewn awdurdodau eraill ledled Cymru;
- er y bu gwelliannau mewn presenoldeb, mae gormod o ysgolion cynradd yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer cefnogi a herio ysgolion yn ddigon trylwyr, ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau;
- nid yw'r awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd wrth reoli a llywodraethu diogelu trwy ymgorffori'r newidiadau y mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi'u gwneud i arferion i roi sicrwydd digonol bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno; a
- bod yr awdurdod yn ymateb yn rhy araf i'r lefel gynyddol o leoedd dros ben yn y sector uwchradd.

Fodd bynnag:

- digwyddodd gwelliant mewn perfformiad mewn ysgolion uwchradd yn gyflymach na Chymru yn 2012 ac mae'n cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion mewn awdurdodau eraill ledled Cymru ar y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg;
- mae gan yr awdurdod ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n golygu bod pobl ifanc yn gallu manteisio'n dda ar eu hawliau ac yn eu galluogi i gyflawni'n dda mewn ystod eang o gymwysterau nad ydynt yn rhai ffurfiol; a
- llwyddodd yr awdurdod i adeiladu gallu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau prif ffrwd.

**Gallu i wella: Anfoddhaol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod arweinwyr corfforaethol ac uwch aelodau etholedig wedi bod yn rhy araf i gydnabod problemau allweddol o ran diogelu a newid y diwylliant mewn gwasanaethau addysg, a'u gwella;
- bod arweinyddiaeth ar lefel cyfarwyddiaeth a gwasanaeth yn wan;
- bod aelodau etholedig wedi'i chael yn anodd archwilio penderfyniadau'n ddigonol a dwyn gwasanaethau i gyfrif;
- nid yw cynlluniau gweithredol a phartneriaeth yn nodi mesurau deilliannau a cherrig milltir perthnasol yn gyson i alluogi swyddogion i olrhain cynnydd, atebolrwydd a pherfformiad yn effeithiol;
- nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn y gyfarwyddiaeth addysg yn ddigon trylwyr i gynnal ac ysgogi gwelliant;

- nid yw'r trefniadau hunanarfarnu yn drylwyr ac nid ydynt yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn gywir;
- bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol; ac
- nid yw'r awdurdod yn paratoi partneriaethau strategol allweddol yn ddigon da i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyflawni nodau corfforaethol penodol.

Fodd bynnag:

- mae arweinwyr corfforaethol wedi dechrau deall ac ymgysylltu'n llawnach â'r heriau sy'n wynebu addysg yn Sir Benfro yn ddiweddar, ac maent wedi cymryd camau priodol i ysgogi gwelliant;
- mae aelodau etholedig allweddol, ynghyd ag uwch swyddogion corfforaethol, yn dylanwadu ar newid diwylliannol cyson, sy'n cyfrannu at ddull mwy agored, realistig a chynhyrchiol o weithio gydag eraill fel y Bwrdd Gweinidogol ac arolygiaethau;
- mae'r awdurdod wedi cymryd camau diweddar i resymoli a chryfhau ei drefniadau partneriaeth; ac
- mae'r awdurdod yn rheoli ei gyllidebau yn ddarbodus ac wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd gan gyfyngu ar effaith effeithlonrwydd ar wasanaethau i ysgolion.

## Argymhellion

A1 Parhau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu ac aelodau etholedig a swyddogion yn eu goruchwylio, yn cynnwys trin achosion o honiadau ynghylch cam-drin proffesiynol.

A2 Parhau i weithio i godi safonau ym mhob cyfnod allweddol ac ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr.

A3 Monitro a herio'r holl ysgolion a defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio.

A4 Rhoi strategaeth briodol ar waith i nodi a bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

A5 Parhau i wella'r trefniadau craffu er mwyn i aelodau etholedig allu herio perfformiad gwasanaethau'r awdurdod, a'i ysgolion a'i drefniadau diogelu.

A6 Creu un broses gynllunio gynhwysfawr a chadarn sy'n nodi lefelau priodol o atebolrwydd a rheoli perfformiad, a rhoi'r broses ar waith.

A7 Cryfhau hunanarfarnu a chynllunio i arfarnu'n fwy systematig y modd y mae gwasanaethau a gwaith partneriaeth yn gwella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Sir Penfro yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion cyn pen 50 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn disgyn i'r categori gweithgarwch dilynol o fod angen mesurau arbennig, a bydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr argymhelliad hwn.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1 astudiaeth achos arfer dda;
2 monitro gan yr arolygydd cyswllt;
3 ymweliad monitro gan Estyn;
4 gwelliant sylweddol; a
5 mesurau arbennig.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio wrth ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu bwydo i'r Calendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn 2012, digwyddodd y gwelliant mewn perfformiad yn ysgolion uwchradd Sir Benfro yn gyflymach nag yng Nghymru gyfan. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion mewn awdurdodau eraill ledled Cymru ar y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn ysgolion cynradd yn cymharu cystal â pherfformiad ysgolion tebyg mewn awdurdodau eraill. Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ganran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn debyg i gyfartaledd Cymru ar ôl bod uwchlaw'r cyfartaledd hwn mewn blynyddoedd blaenorol. Ym mhob cyfnod allweddol, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal â'r disgwyl ar lefelau uwch y cwricwlwm cenedlaethol a graddau TGAU.

O gymharu â lefelau perfformiad ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim yn 2012, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn dda. Mae hanner ysgolion uwchradd Sir Benfro yn y chwarter uchaf, ac nid oes unrhyw ysgolion yn y chwarter gwaelod. Mae hyn yn well na blynyddoedd blaenorol. Mae data dros dro ar gyfer 2012 yn awgrymu bod perfformiad ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar lawer o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Ar dri o'r dangosyddion hyn, nid oes unrhyw ysgolion yn y chwarter gwaelod. Mae hyn yn well na blynyddoedd blaenorol hefyd, er bod dros 60% o ysgolion islaw'r cyfartaledd ar drothwy lefel 1 ac mae gormod o ysgolion yn y chwarter gwaelod. Mae perfformiad yn ysgolion cynradd Sir Benfro islaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen ac ymhell islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, mae gormod o ysgolion yn y chwarter gwaelod. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes digon o ysgolion yn y chwarter uchaf, ac mae 64% o ysgolion yn yr hanner is. Mae hyn yn ddarlun o ddirywiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Yn 2011, llwyddodd perfformiad yn ysgolion Sir Benfro i fodloni meincnod disgwyliedig cyfnod allweddol 3 Llywodraeth Cymru ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim, a bron iddo fodloni un o feincnodau cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, ni chyrhaeddodd meincnod y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Nid yw ffigurau ar gyfer 2012 ar gael eto, er bod data dros dro yn awgrymu gwelliant mewn perfformiad.

Yn 2011, canran y dysgwyr yn Sir Benfro a adawodd yr ysgol heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig oedd y ffigur gwaethaf ond un yng Nghymru ac roedd yn ddirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn awgrymu bod y ffigur hwn wedi gwella.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn llai nag ydyw ledled Cymru yn 2012. Mae hyn hefyd yn wir ar ddau o'r pum prif ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4, er bod y bwlch mewn perfformiad mewn cyfnodau allweddol eraill yn fwy nag ydyw ledled Cymru. Yn 2011, roedd y bwlch

mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, er ei fod yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 4. Nid oes data ar gael ar gyfer 2012 eto.

Pan fydd swyddogion yn arfarnu perfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'r dysgwyr hyn yn cyflawni eu lefelau disgwyliedig ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn ar gael yn gyson ar gyfer pob grŵp.

Mewn ysgolion cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd yn gwneud cynnydd da ac mae llawer ohonynt yn cynnal y gwelliant hwn at ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno prawf darllen ar draws ei holl ysgolion. Mae'r profion hyn yn dangos mai nifer fach o ddysgwyr yn unig sy'n gadael yr ysgol gynradd islaw lefelau llythrennedd swyddogaethol.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith yn well drwyddi draw mewn ysgolion uwchradd nag ydyw mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, ym mhob cyfnod allweddol, nid oes digon o ddysgwyr yn cyflawni'r lefelau uwch.

Mae pobl ifanc yn cyflawni'n dda mewn ystod o gymwysterau nad ydynt yn rhai ffurfiol.

**Lles: Digonol**

Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol a rhaglenni hamdden i ddysgwyr yn Sir Benfro yn cyd-fynd yn fras ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae pobl ifanc sy'n cael cwnsela neu'n cael cyfle i fanteisio ar wasanaethau cymorth eraill yn elwa ar y cymorth hwn ar y cyfan ac yn gwella eu lles emosiynol a'u cyfranogiad mewn dysgu.

Mae presenoldeb yn ddigonol. Yn 2011, er bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd tua dwy o bob tair o ysgolion cynradd yn yr hanner is. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012 yn dangos gwelliant mewn presenoldeb. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac roedd uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2012. Fodd bynnag, yn 2011, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer, un ysgol yn unig oedd yn y chwarter uchaf, ac roedd pedair o'r wyth ysgol yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn y blynyddoedd diwethaf o ysgolion uwchradd Sir Benfro, ac roedd cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy yr isaf yng Nghymru yn 2011. Fodd bynnag, er y bu gwelliant yng nghyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol byrrach yn 2011, nid yw'r awdurdod yn cymharu'n ddigon da ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol wedi disgyn yn y blynyddoedd diwethaf, er bod nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau hwy yn rhy uchel.

Bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn 2011. Mae canran ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn modd adeiladol, er enghraifft trwy fforymau ieuenctid a chynghorau ysgol, i wneud penderfyniadau am faterion sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymunedau lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Anfoddhaol**

Nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer cefnogi a herio ysgolion yn ddigon cadarn, ac nid ydynt yn cael digon o effaith ar wella deilliannau.

Mae'r awdurdod yn defnyddio fframwaith cymorth a her y consortiwm rhanbarthol i gategoreiddio'i ysgolion yn erbyn meini prawf a esboniwyd yn glir. Mae penaethiaid yn ymwybodol o ba gategori y mae eu hysgol ynddo, er nad ydynt yr un mor glir ynglŷn â'r cymorth penodol y byddant yn ei gael. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r categoreiddio yn rhy hael ac nid yw'n adlewyrchu diffygion yn ansawdd yr arweinyddiaeth. Nid yw'r awdurdod wedi gwneud defnydd da o arweinwyr system y consortiwm i wella arweinwyr sy'n tanberfformio mewn ysgolion.

Mae defnyddio'r fframwaith cymorth a her wedi cyfrannu at gysondeb gwell yn y trefniadau ar gyfer ymweliadau cyswllt ag ysgolion. Mae swyddogion yn defnyddio data yn fwy cyson i herio perfformiad ysgolion a nodi grwpiau penodol o ddisgyblion ar gyfer mentora a chymorth. Fodd bynnag, mae swyddogion yn dibynnu gormod ar ystod gyfyngedig o ddata, ac nid ydynt bob amser yn nodi tanberfformio yn ddigon cyflym, er enghraifft trwy gymharu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg.

Nid yw'r prosesau i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion yn drylwyr, ac nid ydynt yn sicrhau eu bod yn cynnig her gyson i ysgolion. Mae ansawdd yr adroddiadau ysgrifenedig i ysgolion yn amrywio gormod. Maent yn ddisgrifiadol yn bennaf, ac nid ydynt yn rhoi arfarniadau clir o ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Nid yw llawer o adroddiadau yn nodi'n eglur y meysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid yw ysgolion yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella, ac mae gormod o ysgolion nad ydynt yn gwella'n ddigon cyflym. Ers yr arolygiad diwethaf, rhoddwyd un ysgol gynradd yn y categori mesurau arbennig, a nodwyd bod angen gwella ysgol gynradd arall yn sylweddol.

Mae mentrau effeithiol i wella medrau sylfaenol dysgwyr mewn llythrennedd mewn ysgolion cynradd, er mai megis dechrau datblygu y mae'r cymorth ar gyfer rhifedd.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i arweinwyr newydd mewn ysgolion. Mae rhaglen hyfforddi briodol ar gael i lywodraethwyr. Fodd bynnag, ni chaiff hon ei thargedu'n benodol at gyrff llywodraethol ysgolion sy'n tanberfformio.

**Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol: Digonol**

Mae'r awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol o ran cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n darparu lefel hael o gyllid ar gyfer anghenion

dysgu ychwanegol ac yn cyfyngu datganiadau'n briodol i ddisgyblion ag anghenion mwy cymhleth. Mae tîm amlasiantaeth yn darparu asesiad cynhwysfawr o anghenion ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar. Mae gan rieni hyder yn yr awdurdod i fodloni anghenion eu plentyn, a chafwyd nifer fach o apeliadau i dribiwnlysoedd dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r ystod eang o wasanaethau cynhwysiant yn effeithiol wrth adeiladu gallu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn lleoliadau prif ffrwd, heb fod angen datganiad. Mae ysgolion arbennig yn rhoi cymorth allymestyn da. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth addas yn y sir i'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan felly'n gwneud defnydd da o adnoddau.

Mae timau cynhwysiant a gwella ysgolion yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn fwy cydlynol i gefnogi a herio ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar waith yr awdurdod wedi'i datblygu'n ddigon da i wneud yn siŵr ei bod yn gwella'r deilliannau ar gyfer pob dysgwr.

Mae ysgolion a gwasanaethau unigol yn casglu a monitro gwybodaeth yn rheolaidd am y cynnydd a wna disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i arfarnu cynnydd grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Yn ychwanegol, nid yw'n dadansoddi effeithiolrwydd ymyriadau penodol yn ddigon da nac yn dyrannu adnoddau i lywio cynllunio strategol.

Mae'r awdurdod yn cynyddu ei ddarpariaeth i fodloni anghenion a nodwyd ac anghenion sy'n newid. Mae wedi cynnal adolygiad diweddar o'i wasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn ddiweddar hefyd i wella effeithiolrwydd o ran cyflwyno gwasanaeth.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth wella'r cyfle sydd ar gael i rieni ddefnyddio gwasanaethau cyfryngu i'w cynorthwyo i gael lefel y cymorth sydd ei hangen arnynt. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i rieni disgyblion ag ADY.

**Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Anfoddhaol**

Ers yr arolygiad diwethaf ym Mehefin 2011, cynhaliodd yr awdurdod adolygiad o'i wasanaethau cynhwysiant. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r awdurdod wedi dod ag ystod o wasanaethau ynghyd yn ddiweddar, yn cynnwys gwasanaethau cymorth i ddisgyblion a Thîm o Amgylch y Plentyn, yn un strwythur rheoli. Mae hyn wedi'i fwriadu'n briodol i wella gallu ysgolion unigol i roi cymorth addas i blant a phobl ifanc.

Ar hyn o bryd, mae effeithiolrwydd y trefniadau newydd yn aneglur. Nid yw'r awdurdod wedi nodi mesurau perfformiad priodol nac wedi dechrau monitro effaith y trefniadau newydd i gefnogi ysgolion gyda'r gwaith hwn.

Mae'r awdurdod wedi gwella'i ddefnydd o ddata i nodi disgyblion ac ysgolion unigol y mae angen y cymorth mwyaf arnynt. Mae swyddogion cynorthwyo disgyblion wedi gweithio'n agos â theuluoedd ysgolion i wella presenoldeb. O ganlyniad, mae gan swyddogion ddealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n achosi presenoldeb gwael, ac maent yn cynorthwyo ysgolion yn fwy effeithiol i wella presenoldeb.

At ei gilydd, mae gwasanaeth cymorth ymddygiad yn rhoi cymorth priodol i ysgolion i'w helpu i leihau gwaharddiadau a'u heffaith ar blant a phobl ifanc. Mae gwasanaeth Ymgysylltu yn gweithio'n briodol gydag ysgolion i helpu pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio ag ymgysylltu mewn addysg a hyfforddiant i ennill cymwysterau defnyddiol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n briodol gydag asiantaethau partner i helpu'r bobl ifanc hyn i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Er bod yr awdurdod wedi gwella'r drefn o gasglu gwybodaeth am achosion o fwlio mewn ysgolion, nid yw hyn yn galluogi swyddogion i arfarnu effaith strategaethau gwrth-fwlio yn effeithiol.

Mae'r awdurdod a'i bartneriaid yn cyflwyno ystod dda o raglenni, sy'n cynnig achredu neu gydnabod dysgu a chyfranogiad i blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys arholiadau cerddoriaeth, gwobrau chwaraeon cyrff llywodraethol cenedlaethol, Gwobr Dug Caeredin, hyfforddiant cymorth cyntaf a dyfarniadau gweithgarwch anturus.

**Diogelu**[1]

Er bod ymwybyddiaeth o faterion diogelu wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon o gynnydd wrth reoli a llywodraethu diogelu trwy ymgorffori'r newidiadau y mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi'u gwneud i arferion i roi sicrwydd digonol bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi cynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith i ymateb i bryderon sylweddol am ansawdd diogelu. Mae wedi adolygu a diweddaru'r cynllun gweithredu'n rheolaidd. O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith erbyn hyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn wedi gwella lefelau ymwybyddiaeth am ddiogelu ymhlith swyddogion, aelodau etholedig, penaethiaid a rhai partneriaid. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi treulio gormod o amser yn cymryd camau adferol i ddelio â'r diffygion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu, heb fynd i'r afael â'r materion diwylliannol a arweiniodd at y barnau anfoddhaol yn yr adroddiadau yn y lle cyntaf.

Er gwaethaf y gwelliannau mewn diogelu a nodwyd gan yr awdurdod yn eu hunanarfarniad a chan yr arolygiaethau, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi barn rhy gadarnhaol i'w hun, sef ei fod wedi gwella'n sylweddol.

Fodd bynnag, mae adroddiadau i'r grwpiau rheoli trosfwaol, i uwch swyddogion ac aelodau etholedig, ac i'r cabinet a chraffu, yn canolbwyntio gormod ar adrodd ar y tasgau a gyflawnir, heb ddadansoddi effaith newidiadau i arfer ar lefel gwasanaeth, neu nodi gwelliannau yng ngwybodaeth, agweddau neu gymhwysedd athrawon a swyddogion wrth ddelio â rheoli diogelu yn ddigon da. Bu hyn yn wendid, sydd wedi rhwystro cynnydd yn y maes hwn.

---

[1] Mae'r dystiolaeth ar gyfer yr adran hon yn manteisio ar waith adroddiad Arolygu Arbennig Swyddfa Archwilio Cymru ar roi trefniadau diogelu ar waith (i'w gyhoeddi 17 Rhagfyr 2012) ac o Gyd-adolygiad o'r Trefniadau i Ddiogelu Plant sy'n Dioddef Camdriniaeth Broffesiynol Honedig gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) (cyhoeddwyd ym Medi 2012).
Mae'r arolygiaethau hyn wedi cytuno â'r Barnau yn yr adran hon.

Fodd bynnag, yn yr wythnosau ychydig cyn yr arolygiad hwn, mae’r awdurdod lleol wedi dechrau nodi’n fwy clir iddo ef ei hun y meysydd i’w gwella y mae angen mynd i’r afael â nhw mewn perthynas â’r diffygion a nodwyd yn yr adroddiadau arolygu amrywiol.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Ar hyn o bryd, Sir Benfro sydd â’r ganran isaf ond un o leoedd dros ben ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru a’r wythfed isaf ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae wedi ad-drefnu ei ysgolion cynradd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae lleoedd dros ben yn parhau i fod uwchlaw targedau Llywodraeth Cymru ac maent yn parhau i gynyddu’n sylweddol yn y sector uwchradd. Mae’r awdurdod yn ymateb yn rhy araf i’r her hon. Bwriad ei gynllunio presennol, yn cynnwys ad-drefnu ysgolion uwchradd ym Mhenfro a Hwlffordd ac adleoli gwasanaethau’r cyngor ar safleoedd ysgolion, yw cyfyngu ar y twf hwn yn unig ac nid ei leihau’n briodol.

Mae’r awdurdod yn parhau i ragweld niferoedd y disgyblion yn gywir ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Fodd bynnag, gan nad yw’n mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg neu am nad oes ganddo ddulliau amgen i gasglu’r wybodaeth honno, nid yw’r awdurdod yn gwybod beth yw gwir lefel yr angen. Heb y wybodaeth honno, ni all gynllunio’n effeithiol i sicrhau cynhwysedd digonol. Mae hyn yn ddiffyg pwysig.

Mae’r awdurdod yn rheoli derbyniadau yn dda. Mae swyddogion yn delio’n brydlon â’r nifer fach o apeliadau yn y sector uwchradd ac yn rheoli derbyniadau hwyr yn briodol.

Mae tîm y blynyddoedd cynnar yn meddu ar wybodaeth dda am y cynhwysedd a’r galw am ofal plant yn Sir Benfro, ac mae’n cydlynu mynediad yn dda. Mae lleoedd dros ben mewn ysgolion yn cael eu mabwysiadu’n briodol i’w defnyddio yn y blynyddoedd cynnar, yn unol â strategaeth yr awdurdod i ddatblygu ffocws cymunedol cryf a darparu ystod ehangach o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Mae’r awdurdod wedi nodi’r adnoddau a’r ddarpariaeth i barhau i sicrhau digonolrwydd yn y blynyddoedd cynnar a chwarae. Mae’n gweithio’n dda gyda Chyngor Sir Gâr i ddarparu adnoddau chwarae cymunedol ar draws y ddwy sir.

Mae gan Sir Benfro ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth ieuenctid. O ganlyniad, caiff pobl ifanc gyfle da i fanteisio ar eu hawliau. Mae nifer y sefydliadau sy’n cyflwyno gwasanaethau naill ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol yn Gymraeg wedi parhau i gynyddu ers yr arolygiad diwethaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae arweinwyr corfforaethol ac uwch aelodau etholedig wedi bod yn rhy araf i gydnabod materion allweddol o ran diogelu a sicrhau gwelliant parhaus ar draws gwasanaethau addysg. Yn y gorffennol, mae aelodau etholedig wedi’i chael yn anodd craffu ar benderfyniadau yn ddigonol a dwyn gwasanaethau i gyfrif. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth strategol a gweithredol yr awdurdod wedi bod yn

ddigon da.
Mae arweinyddiaeth ar lefel cyfarwyddiaeth a gwasanaeth yn wan. Ni fanteisiwyd ar gyfleoedd i arwain gwaith partneriaeth mewnol a strategol effeithiol. Mae gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer ei wasanaethau addysg yn aml yn aneglur. Mae diffyg cynllunio strategol clir wedi cyfrannu at arweinyddiaeth annigonol ar agweddau pwysig ar waith yr awdurdod, er enghraifft wrth ddatblygu'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac mewn gwasanaethau ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a gwella ysgolion.

Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio strategol, yn gorfforaethol a gyda rhieni, yn cydweddu'n ddigon da i wneud yn siŵr bod yr holl flaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni a'u monitro'n llawn ar draws gwasanaethau a phartneriaid. Nid yw cynlluniau gweithredol a chynlluniau partneriaeth yn nodi mesurau deilliannau a cherrig milltir perthnasol yn gyson i alluogi swyddogion i olrhain cynnydd, atebolrwydd a pherfformiad yn effeithiol. Nid yw cynlluniau lefel weithredol yn gynhwysfawr ac nid ydynt yn helpu swyddogion i gyflawni gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau a deilliannau gwell.

Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn wynebu cyfnod o newid sylweddol erbyn hyn. Mae hyn yn amlwg yn y camau priodol y mae uwch arweinwyr yn eu cymryd i ddechrau gwelliant a chyflymu newid. Yn ddiweddar, mae arweinwyr corfforaethol wedi dechrau deall ac ymgysylltu'n llawn â'r heriau sy'n wynebu addysg yn Sir Benfro. Maent yn cydnabod bod angen newid sylweddol o ran dull, mwy o atebolrwydd, a pharatoi gallu ar draws y cyngor a thrwy weithio gyda phartneriaethau lleol a rhanbarthol. Yn ddiweddar, a thros gyfnod byr, mae arweinwyr corfforaethol yn paratoi'r llwybr i wella trwy gryfhau partneriaethau yn yr awdurdod lleol a'r tu allan, gan wella gallu'r gyfarwyddiaeth addysg a datblygu prosesau rheoli perfformiad mwy trylwyr. Yr hyn sy'n bwysig yw'r ffaith fod uwch swyddogion, yn cynnwys y Prif Weithredwr, yn cymryd rôl fwy rhagweithiol erbyn hyn er mwyn deall y meysydd i'w datblygu yn yr adran addysg yn well, a gwella gweithio ar draws y cyngor.

Mae aelodau etholedig hefyd yn derbyn bod angen newid a chynyddu lefel yr her i swyddogion ac ysgolion er mwyn codi safonau, diogelu plant a phobl ifanc a gwneud prosesau atebolrwydd yn fwy trylwyr. Mae aelodau etholedig allweddol, yn cynnwys yr arweiniad a'r deiliad portffolio, ynghyd ag uwch swyddogion corfforaethol, yn dylanwadu ar newid diwylliannol cyson.

Mae'r newid diwylliannol hwn ar lefel uwch eisoes yn cyfrannu at ddull mwy agored, realistig a chynhyrchiol o weithio gyda phobl eraill fel y Bwrdd Gweinidogol ac arolygiaethau.

Mae strwythur y swyddogaeth graffu wedi cael ei ddiwygio yn ddiweddar i roi mwy o gymorth. Mae aelodau craffu wedi cael hyfforddiant i hyrwyddo arfer eu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, er bod ystod ac ansawdd y data a roddir i aelodau wedi gwella, nid yw'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn cael gwybodaeth arfarnol addas am waith y gyfarwyddiaeth a fyddai'n galluogi iddynt eu herio'n briodol a sicrhau atebolrwydd. Mae'r Pwyllgor Craffu Diogelu yn dechrau cael effaith.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae proses gorfforaethol glir a graddfeydd amser cytûn ar gyfer cydlynu

hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws y cyngor. Mae'r broses hon yn canolbwyntio mwy ar gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad ar hyn o bryd, yn hytrach nag arfarnu effeithiolrwydd y camau gweithredu. Fodd bynnag, ni chaiff y broses ei rhoi ar waith yn ddigon cyson i fod yn gwbl effeithiol wrth ddarparu golwg strategol ar draws gwasanaethau'r cyngor. Ni chaiff cynlluniau gwella gwasanaethau eu harfarnu'n ddigon trylwyr i fynd ati'n gywir i nodi meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Darparwyd adroddiad hunanarfarnu gan yr awdurdod cyn yr arolygiad. Er bod yr adroddiad yn arfarnol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth uniongyrchol mewn rhai meysydd, mae'n ddisgrifiadol yn bennaf, ac nid yw'n nodi meysydd i'w gwella yn ddigon cywir ar y cyfan. Ni chaiff honiadau eu cefnogi'n ddigon da gyda thystiolaeth ddibynadwy bob amser. Ni wnaeth y gyfarwyddiaeth addysg gynnwys rhanddeiliaid, asiantaethau eraill na phobl ifanc wrth lunio barnau am ansawdd a safonau.

Mae'r awdurdod yn casglu ystod eang o ddata ar berfformiad dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'n dadansoddi'r data hwn yn ddigon trylwyr er mwyn i swyddogion wybod ble i dargedu ymyriadau a gwybod a yw'r ddarpariaeth yn bodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn briodol. Er bod adroddiadau arfarnu defnyddiol ar gyfer rhai mentrau, ni chaiff y rhain eu harfarnu'n ddigon da ar y cyfan i nodi ble maent fwyaf effeithiol. Nid yw'r awdurdod wedi datblygu strategaeth glir i fesur i ba raddau y mae pobl ifanc yn datblygu ffyrdd iach o fyw.

Yn y gyfarwyddiaeth addysg, nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr i ysgogi'r gwelliant angenrheidiol. Ni chaiff swyddogion eu dwyn i gyfrif yn effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod tanberfformio yn cael ei nodi ac yr eir i'r afael ag ef. Nodwyd bod dwy ysgol gynradd yn ysgolion sy'n achosi pryder mewn arolygiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi defnyddio unrhyw o'i bwerau statudol i wella ysgolion sy'n tanberfformio yn barhaus.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Mae rhieni'n cael cyfle gwell i fanteisio ar wasanaethau cyfryngu erbyn hyn. Mae perfformiad mewn ysgolion uwchradd wedi gwella, ac mae lefelau presenoldeb yn uwch er bod angen eu gwella ymhellach. Gwnaed cynnydd yn ddiweddar wrth wella gwaith y pwyllgor diogelu, trosolwg a chraffu. Fodd bynnag, cynnydd rhannol yn unig a wnaed gydag argymhellion eraill. Mae hyn yn cynnwys meysydd a oedd hefyd yn destun argymhellion yn yr arolygiadau o wasanaethau addysg a gwasanaethau cymorth ieuenctid yn 2008. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â diogelu, cynnig her gyson a phriodol i ysgolion, gwella cynllunio ar lefel gwasanaeth a chryfhau hunanarfarnu. Mae cynnydd o ran y materion pwysig hyn wedi bod yn rhy araf. Fodd bynnag, yn yr wythnosau ychydig cyn yr arolygiad hwn, mae'r awdurdod wedi dechrau nodi'r meysydd i'w gwella yn gliriach i fynd i'r afael â'r diffygion mewn diogelu a nodwyd yn yr adroddiadau arolygu amrywiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r awdurdod wedi cymryd camau yn ddiweddar i resymoli ei drefniadau partneriaeth, a sefydlodd dîm canolog newydd sydd â chyfrifoldeb am gynorthwyo â chynllunio, cydweithio a chraffu. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y cynhwysedd sydd ar gael ac wedi creu sefyllfa fwy dylanwadol yn sail i arwain y trefniadau ar gyfer cynllunio sengl. Fodd bynnag, dim ond dechrau dylanwadu ar

drefniadau cynllunio strategol y mae'r newidiadau hyn.
Mae'r awdurdod yn awr yn ymgysylltu'n llawnach ac yn datblygu perthynas adeiladol gyda phartneriaid. Yn ddiweddar, ac i adlewyrchu'r diwylliant cadarnhaol newydd o gydweithio o fewn yr awdurdod, mae uwch swyddogion yn creu cysylltiadau yn briodol ar draws y rhanbarth i wella'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r awdurdod yn ysgogi partneriaethau strategol allweddol yn ddigon da i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyflawni nodau corfforaethol penodol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn aeddfedu fel corff ac mae partneriaid sector cyhoeddus a gwirfoddol allweddol yn datblygu perthynas waith fwy tryloyw. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi dechrau goresgyn rhwystrau penodol rhag cynnydd, er enghraifft trwy ysgogi cysondeb gwell ar draws sefydliadau yn y ffordd y caiff gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol eu diweddaru. Serch hynny, nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhoi newid ar waith yn ddigon cyflym nac yn nodi atebolrwydd yn glir i sicrhau deilliannau ar y cyd ar gyfer dysgwyr yn unol â blaenoriaethau a nodwyd.

Mae cysylltiadau yn y Rhwydwaith 14-19 yn cryfhau ac mae uwch swyddogion yn ymgysylltu'n briodol mewn trafodaethau ffocysedig ar agweddau ar ei waith. Mae'r cytundebau cyd-lywodraethu defnyddiol rhwng partneriaid wedi arwain at gynnydd yn ystod y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi gweithio'n strategol gyda'i bartneriaid nac wedi cymryd camau effeithiol i ysgogi hawl deg i bob dysgwr ôl-16 a gwneud effeithlonrwydd sylweddol o ran cyflwyno gwasanaethau.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn nodi cyllid arfaethedig yn y dyfodol ac mae'n helpu'r awdurdod i ddeall pwysau cyllidebol yn glir. Mae'n rheoli ei gyllidebau yn ddarbodus ac mae wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd gan gyfyngu'r effaith ar wasanaethau i ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi dyrannu ac alinio adnoddau yn unol â blaenoriaethau penodol, a gall dynnu sylw at welliannau penodol mewn perfformiad o ganlyniad. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud defnydd digon da o'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael iddo trwy'r consortiwm rhanbarthol i gryfhau'r cymorth i ysgolion, er enghraifft.

Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd da o ddata cynhwysfawr am ansawdd yr adeiladau i dargedu ei adnoddau cyfalaf i sicrhau bod adeiladau yn addas ar gyfer dysgu. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi buddsoddi £30.4 miliwn mewn adeiladau ysgol. Cafodd y grant mwyaf ond un gan Lywodraeth Cymru am ei gynnig Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth effeithiol o ran rheolaeth ariannol i ysgolion cynradd gan ddefnyddio data meincnodi ariannol yn briodol i helpu'r ysgolion hyn i reoli eu cyllidebau. Mae'r awdurdod wedi gwrthdroi tuedd o gynnydd ym mantolenni dros ben ysgolion cynradd, er bod y lefel mewn sawl ysgol yn parhau i fod yn rhy uchel. Gofynnir i ysgolion esbonio mantolenni uchel a chynllunio'n briodol ar gyfer gostyngiad yn y gweddillion hyn.

Caiff cyllid i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei ddefnyddio'n dda i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Mae'r awdurdod yn ychwanegu at y gyllideb hon trwy arian ychwanegol i helpu i ariannu anghenion meddygol annisgwyl.

At ei gilydd, nid yw'r awdurdod yn defnyddio prosesau a data sicrhau ansawdd yn gyson i ddadansoddi effaith ei waith ar ddeilliannau dysgwyr. Mae hyn yn golygu nad yw bob amser yn gwybod i ble y dylid cyfeirio adnoddau a gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau. O ganlyniad, nid oes gan yr awdurdod drosolwg cyflawn o b'un a yw gwasanaethau i ddysgwyr yn cyflawni gwerth da.

O ystyried lefelau'r gwariant o fewn y gyllideb addysg a'r deilliannau a gyflawnir yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth addysg yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| John Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Mererid Stone | Dirprwy Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Lamb | Arolygydd Tîm |
| Betsan O'Connor | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Robert Davies | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Pauline Preston | Arolygydd Tîm |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Katy Young | AGGCC |
| Ian Budd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynette Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Martin Lloyd | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.